## PWYLLGOR CRAFFU PERFFORMIAD

Cofnodion cyfarfod o’r Pwyllgor Craffu Perfformiad a gynhaliwyd yn Ystafell Bwyllgora 1a, Neuadd y Sir, Rhuthun, Dydd Iau, 21 Mawrth 2019 am 10.00 am.

### YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Ellie Chard, Ann Davies, Huw Jones (Chair), Geraint Lloyd-Williams and Arwel Roberts.

Mynychodd yr Aelodau Arweiniol, y Cynghorwyr Tony Thomas, Brian Jones a Julian Thompson-Hill ar gais y Pwyllgor.

Arsylwyr - Y Cynghorwyr Meirick Lloyd Davies, Alan James, Rhys Thomas, Julian Thompson-Hill, Graham Timms and Emrys Wynne.

### HEFYD YN BRESENNOL

Prif Weithredwr (JG), Swyddog Arweiniol – Eiddo Corfforaethol a’r Stoc Dai (DL), Swyddog Arweiniol - Tai Cymunedol (GD), Rheolwr Gwasanaethau – Ardaloedd (JM), Pennaeth Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol (TW) Rheolwr Perfformiad Fflyd (CB), Rheolwr Gwella Gwasanaethau (VR), Pennaeth Gwella Busnes a Moderneiddio (AS), Gweinyddydd Systemau a Pherfformiad (EJ), Cydlynydd Craffu (RE) a Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

### 1 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan aelodau’r Pwyllgor sef y Cynghorwyr Rachel Flynn, Hugh Irving, Martyn Holland, Bob Murray a David Williams.

Yn ogystal, derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Bobby Feeley a Richard Mainon, sef yr Aelodau Arweiniol ar gyfer eitemau pump a saith.

### 2 DATGANIADAU O FUDDIANT

Ni chafodd unrhyw gysylltiad ei ddatgan.

### 3 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Nid oedd unrhyw fater brys.

### 4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Craffu Perfformiad a gynhaliwyd ar 29 Tachwedd 2018.

Materion yn codi:

Canlyniadau Arholiadau Allanol a Ddilyswyd:

- (tudalen 8) roedd y Cydlynydd Craffu wedi gofyn i Bennaeth Addysg a Gwasanaethau Plant am awgrymiadau o ran pa agweddau o reoli cyrff llywodraethu ysgolion a fyddai'n elwa o gael eu hadolygu gan craffu.
- (tudalen 9) roedd llythyr wedi ei anfon at Brif Weithredwr Cymwysterau Cymru ac roedd ymateb wedi ei dderbyn (cynhwyswyd y ddau yn y ddogfen Gwybodaeth Briffio a gylchredwyd eisoes). Roedd cyfarfod gan y Cadeirydd yr wythnos ganlynol gydag Aelod Cynulliad Rhanbarthol Gogledd Cymru, Llŷr Gruffydd er mwyn trafod y mater. Roedd nifer o Aelodau Cynulliad eraill wedi ymateb i'r llythyr yn nodi bod pryderon tebyg i rai'r Pwyllgor wedi eu mynegi gan etholwyr ac ysgolion ac ati.

Safonau Llyfrgelloedd (tudalen 10) - Arweinydd Tîm y Cyngor: Roedd Twristiaeth, Marchnata a Digwyddiadau a Rheolwr Cynorthwyol Llyfrgelloedd Rhuddlan a Llanelwy wedi bod mewn trafodaeth ynglŷn â darparu paneli gwybodaeth i dwristiaid yn Llyfrgell Rhuddlan. Disgwylir y gallai hyn gael ei hwyluso yn y flwyddyn ariannol nesaf.

***<u>Penderfynwyd</u> yn amodol ar yr uchod, y dylid derbyn a chymeradwyo cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Craffu Perfformiad a gynhaliwyd ar 31 Ionawr 2019 fel cofnod cywir.***

## 5 GWASANAETHAU TAI

Cyflwynodd Aelod Arweiniol Tai, Adfywio a'r Amgylchedd adroddiad ar y cyd gan Swyddog Arweiniol Tai Cymunedol a Swyddog Arweiniol Eiddo Corfforaethol a'r Stoc Dai (a gylchredwyd eisoes). Roedd yr adroddiad yn cyflwyno ymateb y Cyngor i ganfyddiadau Adolygiad Safbwynt Defnyddwyr Gwasanaeth Swyddfa Archwilio Cymru a gyhoeddwyd mis Awst 2018, o safbwynt Safon Ansawdd Tai Cymru, a gwaith yr Awdurdod gyda thenantiaid.

Yn ystod ei gyflwyniad, diolchodd yr Aelod Arweiniol i'r Pwyllgor am y cyfle i ymateb i'r ddau gynnig am welliant gan Swyddfa Archwilio Cymru yn dilyn ei adolygiad. Tynnodd yr Aelod Arweiniol sylw aelodau at ganlyniadau Arolwg Tenantiaid a Thrigolion 2019 (Atodiad 3 yr adroddiad) lle nodwyd cyfradd fodlonrwydd o 90% yn ymateb i'r cwestiwn am safon cyffredinol eu cartref, sy'n hynod foddhaol.

Atgoffodd Swyddog Arweiniol Tai Cymunedol y Pwyllgor bod Cyngor Sir Ddinbych wedi cyflawni Safon Ansawdd Tai Cymru (WHQS), ond roedd gwaith cynnal a gwella stoc dai'r Cyngor yn parhau ar raddfa lai na'r hyn oedd ei angen i gyflawni'r WHQS. Gan gyfeirio at Adolygiad Defnyddwyr Gwasanaeth Swyddfa Archwilio Cymru, dywedodd Swyddog Arweiniol Tai Cymunedol fod y Swyddfa Archwilio wedi cynnal cyfweliadau stepen drws gyda 122 o denantiaid allan o gyfanswm o 3,385 o denantiaid tai'r Awdurdod. Roedd yr arolwg wedi dod i'r casgliad y dylai'r Cyngor:

- ddarparu help i'r rheiny oedd yn profi lleithder neu gartrefi nad oeddynt wedi eu gwresogi'n ddigonol, yn effeithiol o ran ynni, neu wedi eu hinswleiddio'n dda, ac

- adolygu effaith hir dymor diwedd y gwasanaeth warden preswyl o’i gynlluniau tai gwarchod

O safbwynt lleithder ac effeithlonrwydd ynni'r cartrefi, dywedodd y Swyddog Arweiniol ei bod yn bwysig deall bod 23% o'r tenantiaid a arolygwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru wedi dweud eu bod yn dioddef o broblemau “lleithder a chyddwysiad”, fodd bynnag nid oedd Swyddfa Archwilio Cymru wedi gwneud unrhyw ymchwiliadau pellach i broblemau tenantiaid na ffynonellau’r problemau hynny .

Roedd arolwg tebyg wedi ei gynnal yn ardaloedd Awdurdodau Lleol eraill Gogledd Cymru, roedd y maint sampl yn Ynys Môn yn debyg i un Sir Ddinbych ac roedd 37% yno wedi nodi eu bod yn profi problemau tebyg. Dywedodd y Pennaeth Gwasanaeth bod posibilrwydd fod problemau cyddwysiad yn cael eu hachosi gan nad oedd cartref yn cael ei gynhesu yn ddigonol, drwy ddefnydd aneffeithiol neu anrheolaidd o'r system wresogi, ac / neu fod y preswylydd ddim yn defnyddio mesurau awyru digonol.

Er mwyn darparu cymorth a chyngor i denantiaid roedd y Cyngor wedi cynhyrchu taflen wybodaeth (Atodiad 2 i’r adroddiad) ar sut i osgoi cyddwysiad yn y cartref . Roedd hefyd, mewn partneriaeth gyda Chyngor ar Bopeth Sir Ddinbych, wedi trefnu ymgynghorydd penodedig i gefnogi tenantiaid cyngor o ran problemau tlodi tanwydd, lleithder a chyddwysedd.

Os oedd lleithder yn broblem, gellid gwneud gwaith strwythurol i fynd i’r afael â’r broblem.  Gan fod Sir Ddinbych wedi cyflawni Safon Ansawdd Tai Cymru byddai digon o wres ym mhob un o’r tai a adnewyddwyd o dan y rhaglen, ac ni fyddai problemau lleithder ynddynt.  Dywedodd y Pennaeth Gwasanaeth ei bod yn arbennig o braf nodi bod yr arolwg Tenantiaid a Thrigolion wedi graddio Gwasanaeth Tai Sir Ddinbych fel y prif awdurdod lleol yng Nghymru ar gyfer ‘ansawdd cyffredinol y cartref' ac ar gyfer y ffordd mae'r Gwasanaeth yn mynd i'r afael â gwaith atgyweirio a chynnal a chadw.

Wrth ymateb i gwestiynau aelodau o safbwynt y cynnig gwelliant yn ymwneud â lleithder a gwresogi, fe wnaeth yr Aelod Arweiniol a swyddogion:

- gadarnhau bod gwaith cynnal a chadw Safon Ansawdd Tai Cymru wedi ei ariannu yn bennaf drwy gyllid Llywodraeth Cymru (LlC) a drwy incwm rhenti a dderbyniodd y Cyngor gan ei denantiaid.  Fodd bynnag, wrth symud ymlaen, amcan Sir Ddinbych oedd sicrhau bod safon ei waith ailwampio o safon uwch na Safon Ansawdd Tai Cymru.
- amlygu bod yr arolwg Tenantiaid a Thrigolion wedi nodi'r angen i sicrhau ei bod yn bwysig i denantiaid, yn ogystal â chael tai braf i fyw ynddynt, deimlo fod eu cymdogaeth yn lle braf i fyw.  Ar ôl cyflawni Safon Ansawdd Tai Cymru, roedd peth o'r gwaith oedd yn cael ei wneud o ran y stoc dai yn canolbwyntio ar waith amgylcheddol ac allanol, hynny yw, gwrychoedd, ffensio ac ati.  Er ei bod weithiau’n anodd sicrhau ffensys a ffiniau unffurf ar ystadau, yn arbennig pan oedd llawer o’r tai wedi eu gwerth a bellach o dan berchnogaeth breifat gan nad oedd pob perchennog preifat eisiau newid eu ffensio;

- sicrhau bod y Cyngor bob amser yn gosod y systemau diweddaraf pan fyddent yn uwchraddio systemau gwresogi yn y cartrefi. Ni fyddai cypyrddau cynhesu yn cael eu gwaredu os oeddynt eisoes yn bodoli, yn hytrach byddai gwresogydd cefndir newydd yn cael ei osod yn lle'r hen danc dŵr poeth ar gyfer awyru dillad ac ati. Fodd bynnag, doedd dim lle yn rhai o dai llai y Cyngor ar gyfer cwpwrdd cynhesu. Byddai'r tai oedd yn perfformio waethaf o ran ynni yn cael eu clustnodi er mwyn derbyn systemau gwresogi newydd yn gyntaf gan mai'r tenantiaid yno fyddai'n elwa fwyaf o dderbyn uwchraddiad;
- derbyn pe byddai tenantiaid yn gwrthod uwchraddio eu systemau gwresogi, a allai olygu y byddai'r Cyngor yn methu cyflawni'r targed roedd wedi ei osod i'w hun yn y Cynllun Corfforaethol, y gellid cael darpariaeth i gategoreiddio hyn fel 'methiant derbyniol' gan y byddai'r awdurdod wedi gwneud pob ymdrech i gyflawni'r targed.
- disgwylir y byddai'r tai cyngor newydd arfaethedig sydd i'w hadeiladu yn y dyfodol agos mor effeithlon o ran ynni na fyddai angen gosod system wresogi annibynnol;
- cadarnhau bod ffaniau echdynnu yn cael eu gosod fel arfer pan fyddai eiddo yn cael eu hailwampio;
- cynghori bod y rhan fwyaf o dai y mae'r Cyngor yn eiddo arnynt wedi derbyn bwyler gwres canolog newydd o fewn yr 8 mlynedd diwethaf;
- sicrhau bod Swyddogion Tai yn ymdrin â materion gorfodi, fel gwrychoedd wedi gordyfu, a gerddi blêr ac ati bob dydd fel rhan o'u dyletswyddau dyddiol; a
- cynghori y byddai rôl y Swyddogion Tai yn newid o Ebrill 2019, mewn ymgais i wrando yn well ar denantiaid a gweithredu ar eu pryderon. O'r dyddiad hwn ymlaen byddai tenantiaid yn cysylltu ag un swyddog ar gyfer pob ymholiad tai a thenantiaid. Byddai Swyddogion Tai yn ymweld â chanolfannau cymunedol yn rheolaidd er mwyn cwrdd tenantiaid, ac os na fyddai canolfannau cymunedol ar gael byddent yn ymweld â'r ystadau mewn fan i gwrdd trigolion ac ateb ymholiadau. Maes o law byddai Cynghorwyr yn cael gwybod pwy yw'r Swyddog(ion) Tai ar gyfer eu hardal

Llongyfarchodd aelodau'r Pwyllgor y Gwasanaeth Tai am y daflen gyngor ar osgoi cyddwysedd, roeddynt yn teimlo y byddai'r daflen yn ddefnyddiol i bob aelwyd yn y sir. Yn ddiweddar roedd nifer o aelodau wedi ymweld â'r tai Cyngor oedd wedi eu hailwampio yn eu wardiau a nodwyd eu bod yn edmygu safon y gwaith ailwampio a wnaed.

O safbwynt ail gynnig Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer gwelliant, sef adolygu effaith hirdymor dwyn y gwasanaeth warden i drigolion yn ei gynlluniau llety gwarchod i ben, pwysleisiodd Swyddog Arweiniol Tai Cymunedol bod y Cyngor yn llwyr ddeall bod y wardeiniaid yn cael eu gwerthfawrogi gan y tenantiaid a'u bod yn hoff iawn o'r wardeiniaid, fodd bynnag yn y blynyddoedd diweddar roedd eu presenoldeb wedi bod yn fwy o dawelwch meddwl nag unrhyw beth arall.

Gyda'r newid ffocws o ran darpariaeth gofal cymdeithasol i fod ar ail-alluogi a hyrwyddo annibyniaeth, roedd y potensial gan bresenoldeb wardeiniaid mewn llety i wneud i rhai drigolion fod yn fwy ynysig ac yn llai tebygol o geisio rhyngweithiad cymdeithasol. O dan y Rhaglen Byw'n Annibynnol (SIL) gallai darpariaeth

gymdeithasol wedi'i dargedu gael ei rannu ar draws y sir, ymysg trigolion yn byw mewn llety Cyngor, llety rhent preifat neu yn eu heiddo eu hunain, a gallent oll gael mynediad cyfartal i'r gwasanaethau roeddynt eu hangen. O dan y Rhaglen Byw'n annibynnol mae rhai trigolion o'r cyn adeiladau tai gwarchod yn trefnu eu digwyddiadau cymdeithasol eu hunain yn y canolfannau cymunedol ger yr eiddo, roedd hyn yn lleihau'r risg o arwahanrwydd cymdeithasol.

Eglurodd y Rheolwr Gwasanaeth: Ardaloedd (Gwasanaethau Cymorth Cymunedol) y broses trawsnewid a ddilynwyd ar gyfer y tenantiaid tai gwarchod hynny oedd wedi nodi 'anghenion', a amlinellir yn Atodiad 4 yr adroddiad. Dywedodd o'r 66 o drigolion oedd wedi derbyn cymorth drwy'r gwasanaeth SIL, dim ond dau oedd wedi cwyno, roedd un angen cymorth ychwanegol ac fe ddarparwyd y cymorth hwnnw maes o law.

Roedd y gwasanaeth SIL yn dal i gefnogi tua 15 o denantiaid, ond roedd y mwyafrif o denantiaid mewn cyn lety gwarchod bellach yn niwtral o ran deiliadaeth. Yn y dyfodol agos byddai'r Gwasanaeth SIL yn cael ei alinio gyda'r Gwasanaeth Ail-alluogi.

Byddai'r rôl newydd ar gyfer y Swyddogion Tai o Ebrill 2019 yn cynnwys penodi un hanner diwrnod yr wythnos yn gweithio yn un o'r cyn adeiladau tai gwarchod yn eu hardal er mwyn cefnogi, helpu a chynghori'r tenantiaid. Byddai'r holl denantiaid mewn cyn gynlluniau tai gwarchod yn cael ymweliad gan Swyddog Tai o leiaf unwaith y flwyddyn. Yn ogystal, roedd gwaith yn mynd rhagddo i archwilio'r posibilrwydd o gyflwyno gwasanaeth 'gofalwr symudol' er mwyn gwneud gwaith cynnal a chadw ysgafn yn y canolfannau cymunedol ar safleoedd yng nghyn adeiladau'r llety gwarchod. Byddai'r ddarpariaeth cynnal a chadw, y byddai tâl gwasanaeth yn cael ei godi amdano fel rhan o'r rhent, yn bresenoldeb ar y safle ar sail cylchdro er mwyn cysylltu gyda thrigolion a'u cynorthwyo gyda mân dasgau cynnal a chadw. Pe byddai hynny yn bosib byddai angen ymgynghori gyda thenantiaid ar y cynnig cyn ei gyflwyno.

Gan ymateb i gwestiynau gan yr Aelodau, dywedodd y swyddogion:

- mai un o'r heriau mwyaf i swyddogion o'r Gwasanaeth Tai a'r Gwasanaethau Cymorth Cymunedol oedd perswadio pobl i fynychu digwyddiadau cymdeithasol ac ati a gweld hynny fel ffordd o wella eu lles ac ansawdd eu bywyd;
- bod perthynas weithio'r Cyngor gydag Age Connect yn hynod lwyddiannus, roedd yn cynnal y gwasanaeth Hwylusydd Cymunedol, gwasanaeth oedd yn cael ei ariannu gan y Gronfa Gofal Integredig. Roedd yn braf bod arian y Gronfa Gofal Integredig ar gyfer y Gwasanaeth wedi ei gadarnhau yn ddiweddar ar gyfer 2019/20

Ar ddiwedd trafodaeth drylwyr:

***Penderfynwyd:*** ***yn amodol ar y sylwadau uchod -***

***(i) derbyn y wybodaeth a gyflwynwyd a chefnogi ymdrechion y Gwasanaeth Tai a'r Gwasanaethau Cymorth Cymunedol i fynd i'r***

***afael â'r ddau gynnig o ran gwelliant sy'n ymwneud â thenantiaid y Cyngor yn codi o Adolygiad Safbwynt Defnyddwyr Gwasanaeth Swyddfa Archwilio Cymru - Safon Ansawdd Tai Cymru; a***

***(ii) bod Adroddiad Gwybodaeth yn cael ei ddarparu i'r Pwyllgor yn haf 2020 wedi 'Adolygu effeithiolrwydd y model gweithio newydd ar gyfer Swyddogion Tai'.***

## 6 DRAFFT NEWYDD O'R STRATEGAETH RHEOLI FFLYD

Cyflwynodd Aelod Arweiniol Priffyrdd, Cynllunio a Theithio Cynaliadwy yr adroddiad ar y cyd gan Brif Reolwr: Gwella Gwasanaethau a Fflyd a'r Rheolwr Fflyd oedd yn cyflwyno i'r Pwyllgor ddrafft diwygiedig o Strategaeth Cerbydau fflyd y Cyngor. Roedd copïau o'r adroddiad a'r strategaeth ddrafft wedi eu cyhoeddi a'u cylchredeg o flaen y cyfarfod. Yn ystod ei gyflwyniad pwysleisiodd yr Aelod Arweiniol yr angen i'r Cyngor leihau ei allyriadau carbon, ond o wneud hynny yr oedd yn bwysig bod y fflyd yn addas at bwrpas, sef darparu gwasanaethau hanfodol.

Dywedodd Pennaeth Priffyrdd a'r Amgylchedd mai'r sefyllfa ddiofyn fyddai peidio cael cerbydau diesel newydd yn awtomatig pan fydd yn bryd cael cerbydau newydd yn lle hen rai. Pan fydd angen i Wasanaeth newid cerbyd byddai angen yn gyntaf ystyried cael cerbyd trydan neu danwydd amgen yn ei le. Os oedd y Gwasanaeth o'r farn na fyddai cerbydau o'r fath yn addas at yr hyn oedd ei angen ohonynt, yna byddai'n rhaid iddynt dystio pam mai cerbyd diesel fyddai'r unig un i wneud y tro yn ei le. Pwysleisiodd bod y Strategaeth yn berthnasol i sut mae'r Awdurdod yn prynu ac yn gwaredu ei gerbydau a sut mae'r broses honno yn ffitio ac yn cyfrannu tuag at y Cynllun Corfforaethol, yn benodol i'r ffrwd waith sy'n ymwneud â gostwng allyriadau carbon yr Awdurdod.

Wrth ymateb i gwestiynau'r Aelodau, fe wnaeth yr Aelod Arweiniol, Prif Reolwr : Gwella Gwasanaethau a Fflyd, a'r Rheolwr Fflyd:

- gadarnhau, bod dwy fan drydan eisoes wedi eu prynu fel prosiect peilot, at ddefnydd Gwasanaeth Moderneiddio a Gwella Busnes y Cyngor. Byddai'r rhain yn cael ei dwyn i'r gwasanaeth unwaith y byddai pwyntiau gwefru trydan wedi eu gosod yn y brif swyddfa ac mewn lleoliadau depot;
- cynghori mai dim ond ar gyfer gwefru cerbydau'r Cyngor y byddai'r pwyntiau gwefru ar eiddo'r Cyngor yn cael eu defnyddio am y tro;
- pwysleisio bod gwaith yn mynd rhagddo yn rhanbarthol gyda phartneriaid i archwilio pwy oedd â diddordeb gweithio gydag awdurdodau lleol o safbwynt sefydlu isadeiledd gwefru cerbydau trydan ar draws Gogledd Cymru;
- cadarnhau bod y Cyngor ar hyn o bryd yn prynu ei danwydd gwresogi a cherbydau drwy'r fframwaith tanwydd genedlaethol. Roedd y contract ar gyfer ei ddarparu wedi mynd allan i dendr yn ddiweddar;
- cadarnhau bod technegau gyrru pob cerbyd yn cael mwy o effaith ar yr agenda lleihau carbon, na phrynu cerbydau trydan, er y byddai hynny hefyd yn cyfrannu at leihau allyriadau carbon o fflyd y Cyngor.
- sicrhau bod gofyniad cyfreithiol bod Tachograph ym mhob un o gerbydau'r Cyngor er mwyn monitro gweithgarwch gyrwyr. O 400 o gerbydau'r Awdurdod, roedd systemau telematic ym mhob un ond 15 ohonynt, ac roedd y rhan fwyaf o'r rheiny yn fysiau mini ysgolion. Cynghorwyd ysgolion i

sicrhau bod systemau telematic wedi eu gosod eisoes pan fyddent yn gwneud ymholiadau ynglŷn â bysiau mini newydd.

- cytuno y byddai pob cerbyd newydd yn y dyfodol wedi eu ffitio â systemau gwybodaeth mwy manwl, a fyddai'n rhoi manylder ar ddata technegau gyrru a'u heffaith ar ddefnydd o danwydd ac allyriadau carbon ac ati;
- pwysleisio bod yn rhaid i'r holl gerbydau ar hyn o bryd fodloni safonau allyriadau Ewropeaidd, ac nad ydy diesel mor ddrwg ag y mae'r cyfryngau wedi ei bortreadu;
- cynghori bod technoleg pŵer batri yn datblygu yn sydyn iawn ar hyn o bryd;
- egluro'r rhesymau pam nad oedd cerbydau sy'n defnyddio Nwy Petrolewm Hylifedig (LPG) yn cael eu hystyried ar gyfer fflyd y Cyngor ar hyn o bryd, yn bennaf oherwydd bod y rhan fwyaf o gerbydau LPG unai yn hybrid neu yn gerbydau wedi eu trosi gan nad yw gwneuthurwyr yn cynhyrchu cerbydau LPG yn unig;
- cynghori bod y Cyngor yn caffael ei gerbydau drwy gytundeb fframwaith, yn debyg i'r ffordd mae'n prynu tanwydd;
- cadarnhau eu bod yn glanhau ceir yn broffesiynol pan fyddant yn eu gwaredu, a bod pob arwydd o enw neu logo yn cael ei waredu'n iawn cyn eu gwerthu;
- cytuno bod gan y Cyngor lawer o gerbydau ar y ffordd ar yr un pryd, ac er bod risg y byddai hyn yn cael ei weld gan rai fel gwastraffu adnoddau'r Cyngor, roedd yr holl gerbydau oedd yn teithio ar yr un pryd yn darparu gwasanaethau penodol i drigolion a busnesau o amrywiaeth eang iawn o wasanaethau h.y. Priffyrdd, Gofal Cymdeithasol, casgliadau gwastraff ac ati;
- cynghori bod tua 90% o'r gwaith o gomisiynu cerbydau at ddefnydd y Cyngor yn cael ei wneud gan Adran Fflyd yr Awdurdod ei hun;
- egluro bod ystyriaeth wedi ei roi i adael i staff a'r cyhoedd defnyddio'r 20 o bwyntiau gwefru trydan newydd fydd wedi eu lleoli yn amrywiol leoliadau'r Cyngor erbyn diwedd 2020/21, fodd bynnag penderfynwyd peidio caniatáu hyn ar gyfer y dyfodol agos. Y rheswm dros hyn yw pe byddai fflyd y Cyngor ei hun o gerbydau trydan yn cynyddu yn ystod y cyfnod hwn byddai'n rhaid i'r Awdurdod dynnu caniatâd i staff a'r cyhoedd ddefnyddio'r pwyntiau gwefru yn ôl, a fyddai'n gwneud niwed i enw da'r Awdurdod yn yr hir dymor;
- cadarnhau bod darparu pwyntiau gwefru cerbydau at ddefnydd y cyhoedd yn cael ei ystyried fel rhan o ddrafft Cynllun Teithio Cynaliadwy'r Cyngor oedd yn cael ei ysgrifennu ar hyn o bryd. Bwriedir cyflwyno'r cynllun drafft i'r Pwyllgor ei ystyried yn gynnar yn 2020. Byddai pwyntiau gwefru cerbydau ar gael at ddefnydd y cyhoedd yn y maes parcio a fyddai'n cael ei ddatblygu ar safle'r hen Swyddfa Bost yn Y Rhyl;
- eglurwyd rôl yr Adnodd Desg Hurio Gorfforaethol;
- eglurwyd na allai'r Cyngor rannu lorïau ac ati 'sbâr' gydag awdurdodau cyfagos gan fod yn rhaid cael Trwydded Gweithredwr ar gyfer pob Cerbyd Nwyddau Trwm (HGV) yr oedd yn ei weithredu. Hefyd, roedd yn debygol y byddai angen cerbydau arbenigol fel lorïau graeanu gan yr holl awdurdodau ar yr un pryd, oherwydd y math o wasanaethau roeddynt yn eu darparu. Fodd bynnag roedd yn dda gallu adrodd bod LlC yn ddiweddar wedi prynu dau gerbyd graeanu yn benodol ar gyfer cadw llwybr teithio allweddol yr A55 yn agored ar ac o amgylch Allt Rhuallt; a

- chynghorwyd ei bod yn edrych yn annhebygol ar hyn o bryd y byddai cerbydau trydan yn addas i gasglu gwastraff, hyd yn oed o dan y model gwastraff ac ailgylchu newydd. Tra bod cerbydau trydan yn cael eu datblygu ar gyfer pob math o ddibenion, ar hyn o bryd roedd yn ymddangos yn fwy tebygol y byddai cerbydau mwy o faint yn cael eu pweru yn y dyfodol gan hydrogen.

Dywedodd Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol y byddai'n trafod gyda'r Tîm Caffael a oedd unrhyw anghenion penodol o dan y broses gaffael – ar wahân i ystyriaethau'r Cynllun Corfforaethol – yn gofyn am ystyried cerbydau trydan yna cerbydau tanwydd amgen o flaen cerbydau tanwyddau ffosil wrth sefydlu proses dendro ar gyfer cael cerbydau newydd.

Croesawodd Aelodau'r strategaeth newydd arfaethedig a'i nodau a'i hamcanion. Fe wnaethant hefyd longyfarch swyddogion am gynhyrchu dogfen ddealladwy, eglur, gryno, wedi ei hysgrifennu yn dda.

Ar ddiwedd y drafodaeth, cytunodd yr Aelod Arweiniol a'r swyddogion, mewn ymateb i gais y Pwyllgor, i gynnwys cyfeiriad yn y Strategaeth at y ffaith y byddai offer tracio / telematic yn cael ei osod yn yr holl gerbydau at bwrpas monitro er mwyn sicrhau bod yr holl gerbydau yn cael eu gyrru'n effeithiol. Felly;

***Penderfynwyd: - cytuno ar fabwysiadu'r Strategaeth, yn ddibynnol ar y sylwadau uchod a chynnwys yr adran ar osod offer tracio cerbydau ac offer telematic yng ngherbydau'r Cyngor er mwyn cynorthwyo arferion gyrru effeithiol.***

Ar y pwynt hwn doedd dim cworwm gan y Pwyllgor bellach, ond parhaodd i gynnal ei fusnes yn anffurfiol.

## 7 POLISI ENWAU A RHIFAU STRYDOEDD

Cyflwynodd y Pennaeth Gwella Busnes a Moderneiddio adroddiad y Swyddog Enwi a Rhifo Strydoedd (a gylchredwyd eisoes) oedd yn cyflwyno'r Polisi Enwau a Rhifau Strydoedd cyfredol i'r Pwyllgor. Nod yr adroddiad oedd i aelodau adolygu'r polisi a phenderfynu a oedd unrhyw newidiadau i'r polisi yn angenrheidiol.

Dywedodd y Swyddog Enwi a Rhifo Strydoedd bod y polisi wedi ei fabwysiadu yn 2014, gyda'r newidiadau diweddaraf iddo wedi eu cymeradwyo drwy Benderfyniad Dirprwyedig Aelod Arweiniol, ym mis Awst 2018. Roedd y polisi yn ei gwneud yn ofynnol i bob enw stryd newydd yn Sir Ddinbych fod yn Gymraeg neu'n ddwyieithog. Roedd yn bwysig bod enwau strydoedd yn gyson gyda threftadaeth leol yr ardal, ac yn eglur at bwrpas lleoli eiddo ar gyfer derbyn cyflenwadau a dibenion y gwasanaethau brys. O'r 20 enw stryd a gymeradwywyd yn y blynyddoedd diwethaf roedd enw Cymraeg yn unig ar 18 ohonynt, ac enwau dwyieithog ar y 2 arall.

Wrth ymateb i gwestiynau'r aelodau, fe wnaeth y swyddogion:

- gynghori, lle mai enwau strydoedd / ffyrdd Saesneg yn unig oedd yn cael eu dangos ar arwyddion ar hyn o bryd, ni fyddai arwyddion dwyieithog yn cael eu gosod yn eu lle hyd nes byddai'r arwyddion wedi eu torri neu y byddai angen rhai newydd, oherwydd y costau ychwanegol. Os oedd cynghorau tref a chymuned yn fodlon talu am arwyddion newydd, byddai’r Cyngor yn gosod arwyddion dwyieithog yn lle rhai Saesneg yn unig;
- cadarnhau lle'r oedd enwau dwyieithog yn bodoli, polisi Y Post Brenhinol oedd cyhoeddi’r fersiwn Saesneg o’r cyfeiriad a chadw’r fersiwn Gymraeg yn y cefndir;
- egluro, tra nad oedd y polisi yn annog yr arfer o enwi strydoedd ar ôl unigolion penodol, boed yn fyw neu’n farw, roedd yr Awdurdod wedi caniatáu enwi chwe stryd newydd yn Y Rhyl ar ôl aelodau lleol o’r lluoedd arfog a laddwyd mewn brwydr. Roedd Cyngor y Dref wedi cyflwyno enwau wyth milwr lleol a laddwyd mewn brwydr, byddai’r ddwy stryd nesaf sydd i'w hadeiladu yn cael eu henwi ar ôl y ddau filwr arall.
- cadarnhau mai’r ychwanegiad diweddaraf at y rhestr o enwau a gymeradwywyd y gellid eu defnyddio oedd ‘Cae’;
- nodi tra bo codau post yn ddefnyddiol wrth geisio dod o hyd i gyfeiriad, gan eu bod yn cynnwys ardal eithaf eang roedd cael enwau stryd hawdd eu hadnabod o gymorth wrth chwilio am eiddo penodol, yn arbennig o felly o safbwynt y gwasanaethau brys ac at ddibenion dosbarthu.
- cadarnhau mai’r awdurdod lleol oedd â'r penderfyniad terfynol ar enwi stryd neu ffordd; a
- chytuno y dylai pob enw stryd gael ei arddangos mewn fformat safonol ac mewn ffont o faint safonol. Pe bai rhywun yn mynd yn groes i hyn dylai aelodau godi'r mater gyda Gwasanaeth Priffyrdd y Cyngor.

Gofynnodd Aelodau ynghylch nifer o anghysondebau o fewn y Polisi. Roedd yr ymholiadau yn cynnwys y canlynol:

- Fersiwn Saesneg – Adran B: Paragraff 2 dylai 'mead’ ddarllen ‘mede’;
- dim cyfieithiad uniongyrchol o ‘cae’ wedi ei gynnwys yn y fersiwn Saesneg;
- Fersiwn Gymraeg – Adran B: Paragraff 2 dylid cynnwys ‘heol’ gan ei fod eisoes yn bodoli mewn enwau strydoedd
- Adran B: Paragraff 2.2. – y gwaharddiad rhag defnyddio y fannod 'The' yn Saesneg ac 'Y/Yr' yn Saesneg yn achosi problem yn Gymraeg gan bod y fannod yn angenrheidiol yn y Gymraeg fel rhagddodiad i enwau penodol;
- Adran B: Paragraff 2.4 – angen ailedrych ar y defnydd o Gogledd/Dwyrain/ De a Gorllewin gan ei bod yn bosib nad yw'r ystyr bob amser yn glir yn y fersiwn Gymraeg;
- Adran D: Paragraff 3.3 angen diweddaru/dileu y cyfeiriad at “rhwng 2013 a 2016” yn y fersiwn Gymraeg a’r fersiwn Saesneg; a
- Adran D: paragraff 4.1 yn y fersiwn Gymraeg a'r fersiwn Saesneg - angen newid enwau’r sefydliadau partner er mwyn adlewyrchu teitlau swyddogol cyfredol e.e. Dylai Gwasanaeth Tân Gogledd Cymru ddarllen Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru a dylid rhoi Hafren Dyfrdwy yn lle Dŵr Dyffryn Dyfrdwy.

Roedd y Pwyllgor o’r farn y byddai’n syniad da adolygu’r polisi yn drylwyr er mwyn sicrhau ei fod yn gyfredol ac nad oedd unrhyw anghysondebau ynddo. Felly penderfynodd yr Aelodau:

***<u>Argymell:</u> - bod swyddogion, gan ystyried y sylwadau uchod -***

***(i) yn cynnal adolygiad trylwyr o’r Polisi Enwau a Rhifau Strydoedd***
***(ii) y dylid ymgynghori â Phwyllgor Llywio Iaith Gymraeg y Cyngor ynglŷn â chynnwys a chywirdeb y polisi drafft, fel rhan o’r adolygiad; ac***
***(iii)y dylid cyflwyno'r Polisi drafft wedi ei ddiwygio i'r Pwyllgor Craffu Perfformiad yn ystod hydref 2019 er mwyn ymgynghori cyn ei gyflwyno i'r Cabinet i'w gymeradwyo a'i fabwysiadu***

## 8 RHAGLAN WAITH ARCHWILIO

Cyflwynodd y Cydlynydd Craffu adroddiad (a gylchredwyd ymlaen llaw) yn gofyn i’r Aelodau adolygu rhaglen waith y Pwyllgor ac yn rhoi’r wybodaeth ddiweddaraf ar faterion perthnasol.

Roedd copi o “ffurflen gynnig Aelodau” wedi ei chynnwys yn Atodiad 2. Dylid cyflwyno unrhyw gynnig i’r Cydlynydd Craffu. Mae Rhaglen Gwaith i’r Dyfodol y Cabinet wedi ei chynnwys yn Atodiad 3 ac mae tabl gyda chrynodeb o benderfyniadau diweddar y Pwyllgor a gwybodaeth am y cynnydd wrth eu rhoi ar waith wedi ei gynnwys yn Atodiad 4.

Amlygodd y Cydlynydd Craffu mai dim ond un eitem oedd ar raglen cyfarfod mis Mai y Pwyllgor Craffu Perfformiad – sef y Gofrestr Risg Gorfforaethol.

Gyda chaniatâd y Pwyllgor, cytunwyd y byddai’r Gofrestr Risg Gorfforaethol yn cael ei gohirio nes cyfarfod mis Mehefin, cyn belled nad oedd unrhyw eitemau eraill yn cael eu cytuno i’w harchwilio gan y Pwyllgor yn y cyfamser, ac y byddai cyfarfod mis Mai felly yn cael ei ganslo.

***<u>Penderfynwyd,</u> yn amodol ar yr uchod, y dylid cymeradwyo’r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol.***

## 9 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR PWYLLGOR

Dywedodd y Cynghorydd Ellie Chard ei bod wedi mynychu cyfarfod ffrydiau ymchwilio Her y Gwasanaeth Addysg a'i bod i fod i fynychu cyfarfod pellach ym mis Ebrill.

**Daeth y cyfarfod i ben am 12:35pm**